# Tasg 1

**(Craidd, sbardun 2)**

**A.** Mae Tim Boswel yn teimlo llawer o emosiynau gwahanol yn ystod y darn. Gyda phartner, rhowch yr emosiynau hyn yn y drefn y maen nhw'n dod yn y darn. Chwiliwch am ddyfyniad i brofi eich pwynt.

1. Galaru am ei dad-cu.
2. Teimlo'n falch fod y garafán yn llosgi'n dda.
3. Rhyddhad bod y fatsien wedi tanio.
4. Teimlo bod ei dad-cu'n ddiogel yn y Nefoedd nawr.
5. Ofni nad oedd y tân yn llosgi.
6. Gobeithio bod y fatsien yn mynd i danio.

**B.** Casglwch yr holl eirfa sy'n **ymwneud â thân** yn y darn.

**C.** Llenwch y tabl hwn. Mae'r **enw**'n cael ei roi i chi, rhaid i chi roi'r **berfenw**. Mae rhai atebion yno'n barod.

| Enw | Berfenw |
|---|---|
| llosg | llosgi |
| fflam | |
| tân | |
| carafán | carafanio |
| gwreichion | |
| diffoddwr | |
| ffroenau | |
| tro | |
| rhodd | |
| naid | |

**CH.** Dyma gerdd fer sy'n adrodd profiad Tim Boswel ar ddechrau'r darn hwn o *Tân ar y Comin*. Mae bylchau yn y gerdd – defnyddiwch y geiriau yn y blwch oddi tani i'w chwblhau. **Cliw**: Mae'r gerdd yn cynnwys **cyflythrennu** (lle mae cytseiniaid yn cael eu hailadrodd) ac **odli.**

Arllwys yr olew ..................... dros y dillad gwely oer,

Cydio'n nerfus yn y .........................,

A'i tharo ar ymyl y bocs.

.................. fechan yn codi, gan grynu'n oren.

Fflam newydd yn ................,

A'r dillad yn .....................

A'r .............. yn llond fy ffroenau.

**Geiriau**: fflamio; fatsien; llosgi; fflam; neidio; drewllyd.